## Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (134)

## Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mercher, 04 Mai 2005

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm

# 2.00pm

## Cynnig i sefydlu pwyllgor ychwanegol o dan Reol Sefydlog 8.1 i ystyried Cychwyn Adran 54 ac Adran 54A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

## NDM2414 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn sefydlu pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 8.1 i'w adnabod fel 'Pwyllgor Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru)(Gorchymyn Cychwyn Rhif 3) 2005'.
2. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys pum Aelod o'r Cynulliad, dau o'r Blaid Lafur, un o Blaid Cymru, un o Blaid Geidwadol Cymru ac un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.
3. Y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor fydd:
a) Ystyried cychwyn adran 54 (1) i (5) fel y'i diwygiwyd, ac adran 54A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru).
b) Adrodd i'r Cynulliad erbyn 10 Mehefin 2005 ar ei gasgliadau.
4. Bydd y Pwyllgor yn peidio â bod ar 30 Mehefin.

*Gellir dod o hyd i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru drwy ddefnyddio'r hypergyswllt canlynol:*
*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040023.htm*

*Diwygiwyd adran 54, ac ychwanegwyd adran 54A i'r Ddeddf, drwy Orchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) (Llacio Cyfyngiad ar Ddatgeliad) 2005. Daethpwyd ag isadrannau (6) i (8) adran 54 i rym gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Ionawr 2005 er mwyn galluogi i'r Gorchymyn uchod gael ei wneud.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 27; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 27
**Derbyniwyd y cynnig**

## Cynnig i Ohirio Rheolau Sefydlog

## NDM2423 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy’n mynnu bod y Datganiad Busnes Wythnosol yn glynu wrth yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer busnes y Cynulliad yn yr wythnos ganlynol, er mwyn gallu ystyried NNDM2413, fel y gellir ethol Aelodau i Bwyllgor Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Gorchymyn Cychwyn Rhif 3) 2005, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 4 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 28; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 28
**Derbyniwyd y cynnig**

## Etholiadau i'r Pwyllgor Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Gorchymyn Cychwyn Rhif 3) 2005

## NNDM2413 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 8.3, yn ethol yr aelodau canlynol i Bwyllgor Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Gorchymyn Cychwyn Rhif 3) 2005:

Ann Jones (Llafur)
Irene James (Llafur)
Janet Davies (Plaid Cymru)
Mark Isherwood (Ceidwadwyr)
Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 29; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 29
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

## 2.03pm

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Atebwyd yr holl gwestiynau. Tynnwyd cwestiwn 1+5+10 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 7.

**.......................................**

## 2.33pm

## Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Atebwyd y 14 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 6+8 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 15.

**.......................................**

## 3.06pm

### Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25

### NDM2417 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005 ar Reoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) drafft 2005; ac

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag
a) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ebrill 2005.
b) arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 46; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

### Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn yr Awdurdod Ydau Cartref (Cyfradd Ardollau) 2005 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3

## NDM2421 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 & 25.14:
1. Yn cymeradwyo Gorchymyn yr Awdurdod Ydau Cartref (Cyfradd Ardollau) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005; a
2. yn nodi'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 48; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.07pm**

## Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc) (Cymru) 2005

## NDM2416 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ebrill 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ysgogi ymgyrch proffil uchel ar y cyd â'r cyfryngau, i hysbysu'r cyhoedd nad yw pob ardal o dir amaethyddol yn dod o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant**
O Blaid 11; Ymatal 7;Yn erbyn 29; Cyfanswm 47
**Gwrthodwyd Gwelliant**

**Y cynnig,**
O Blaid 41; Ymatal 0;Yn erbyn 7; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig**

**NDM2415 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005 mewn perthynas â’r drafft o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc) (Cymru) 2005 ac
2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dull Mynediad, Apelau etc) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ebrill 2005; a’r
b) Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005; a’r
c) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 40; Ymatal 0;Yn erbyn 7; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig**

**......................................**

**3.15pm**

## Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 o dan Reol Sefydlog 26

## NDM2420 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 26, yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau’r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005.

*Mae cymhwysedd y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gosodwyd y memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ac fe’i e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 45; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.24pm**

## Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch a Gwell) (Cymru) 2005 o dan Reol Sefydlog 29

## NDM2418 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch a Gwell) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 45; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

## NDM2419 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo Cyfarwyddiadau'r Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch a Gwell) (Cymru) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau'r Cynulliad ar 26 Ebrill 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Y cynnig,**
O Blaid 45; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.41pm**

## Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2003-04

## NDM2422 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn croesawu Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2003-04;
2. Yn croesawu casgliad y Prif Arolygydd bod safonau wedi codi dros y 5 mlynedd diwethaf gyda rhai o'r gwelliannau mwyaf yn cael eu cyflawni yn 2003-04;
3. Yn cydnabod bod y rhaglen waith a nodwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu ar y trywydd cywir, gyda gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn o ran safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Gellir dod o hyd i Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2003-2004 drwy'r hypergyswllt atodedig:
http://www.estyn.gov.uk/publications/Estyn_Full_Annual_Report_English.pdf

Gellir dod o hyd i Y Wlad sy'n Dysgu drwy'r hypergyswllt atodedig:
http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/PDF/learningcountry-e.pdf

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**1. David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi â phryder bod gormod o ddysgwyr dros 16 oed yn bodoli nad oes ganddynt y cymwysterau sydd eu hangen arnynt.

**2. David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi â phryder nad yw'r targedau cenedlaethol yn cael eu cyrraedd.

**3. David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi â phryder bod sgiliau sylfaenol yng Nghymru bellach yn waeth nag yn unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU.

**4. Kirsty Williams (Aberhonddu a Sir Faesyfed)**
Yn nodi bod safonau hyfforddiant yn seiliedig ar waith yn parhau i achosi pryder a bod arweiniad a rheolaeth gormod o ddarparwyr hyfforddiant yn seiliedig ar waith yn anfoddhaol ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag ELWa i adolygu hyfforddiant yn seiliedig ar waith gyda'r nod o ddelio â'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 12; Ymatal 0;Yn erbyn 29; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 8; Ymatal 2;Yn erbyn 31; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 8; Ymatal 2;Yn erbyn 31; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 41; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 41
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig,**
O Blaid 40; Ymatal 0;Yn erbyn 1; Cyfanswm 41
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

**4.33pm**

**Y Ddadl fer**

**NDM2412 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd): Damweiniau yn y cartref – y broblem gudd.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.03pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 10 Mai 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 04 Mai 2005**

- Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol - Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd a Chyngor Ewrop ar Wasanaethau yn y Farchnad Fewnol - LD3748

**Dogfennau a Osodwyd ar 03 Mai 2005**

- LC1053 - Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 - LD3738
- LC1054 - Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 - LD3739
- LC1072 - Rheoliadau Tai Lesddaliad (Hysbysiad o Warchodaeth Yswiriant) (Cymru) 2005 - LD3740
- LC1073 - Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3741
- LC1074 - Rheoliadau Landlord a Thenant (Hysbysu o Rent) (Cymru) 2005 - LD3742
- LC1075 - Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori ) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3743
- LC1076 - Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 - LD3744
- LC1077 - Gorchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 3 ac Arbediad a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 - LD3745
- LC1078 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3746
- LC1079 - Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela wedi'i Ffermio a Chig Cwningod (Hylendid ac Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2005 - LD3747
- The Production of Bovine Collagen Intended for Human Consumption in the United Kingdom (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3716 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The TSE (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3717 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Smoke Flavourings (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3718 *Dim*

*fersiwn Gymraeg ar gael*

- The Business Improvement Districts (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3719 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Feeding Stuffs (Establishments and Intermediaries) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3720 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3721 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Rheoliadau Landlord a Thenant (Hysbysiad o Rent) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD33722
- Rheoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela Wedi'i Ffermio A Chig Cwningod (Hylendid Ac Archwilio) - Memorandwm Cywiriadau - LD3723
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 - LD3724
- Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005 - LD3725
- The Education Act 2002 (Commencement No.6 and Transitional Provisions) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3726 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2005 - LD3727
- Education (Disapplication of the National Curriculum at Key Stage 1) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3728 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 - LD3729
- The Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3730 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005 - LD3731
- Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005 - LD3732
- Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005 - LD3733
- The National Assembly for Wales (Social Services Explanations) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3734 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Education (Admission Appeals Arrangements) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3735 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3736 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*
- The National Curriculum Assessment Arrangements (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3737 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*